**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan MS
Prif Weinidog Cymru

04 Mawrth 2025

Annwyl Eluned,

Gwnaethom ysgrifennu atoch ar 13 Tachwedd 2024 er mwyn eich gwahodd i un o'n cyfarfodydd i drafod materion o fewn ein cylch gwaith y mae gennych gyfrifoldeb gweinidogol amdano. Daeth hyn yn sgil ein cyfnewid gohebiaeth ym mis Hydref (sef, eich llythyr dyddiedig 28 Hydref mewn ymateb i'n llythyr dyddiedig 3 Hydref).

Mae materion sy'n ymwneud â'r rhaglen ddeddfwriaethol, Cymru ac Ewrop a chysylltiadau rhynglywodraethol yn parhau i fod yn bwysig wrth inni nesáu at flwyddyn olaf y Chweched Senedd. Fel y gwyddoch, mae'r rhain yn faterion sydd o fewn eich cyfrifoldeb gweinidogol, ac nid ydynt yn faterion y mae unrhyw un o weinidogion eraill y llywodraeth na'r Cwnsler Cyffredinol yn gyfrifol amdanynt. Felly, credwn y byddai'n briodol ichi ymddangos gerbron y Pwyllgor i drafod y materion hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Rydym yn cydnabod y gellir trafod materion sy'n ymwneud â chysylltiadau rhynglywodraethol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog. Fodd bynnag, hoffem drafod y mater pwysig hwn yn fanwl ac ar y cyd fel Pwyllgor, ochr yn ochr â'r materion eraill y cyfeirir atynt uchod.

Wrth wneud y cais ychwanegol hwn, nodwn eich bod wedi rhoi tystiolaeth ar 12 Chwefror 2025 i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin ar waith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys materion yn ymwneud â chysylltiadau rhynglywodraethol.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn 20 Mawrth, fel y gellir gwneud trefniadau i ddarparu ar gyfer y sesiwn hon ar ddyddiad sy'n addas i chi ac i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd